

# DANGOSFWRDD ORGANIG

## Hydref 2019 – Medi 2020

% y gweithgaredd sy'n berthnasol i'r sector Organig:

21%

O WEITHGAREDD  
ORGANIG

MAE 591 O FUSNESAU SYDD  
WEDI COFRESTRU

gyda Cyswllt Ffermio yn dod o'r  
sector Organig.



### Y Rhwydwaith Arddangos

#### Fferm Henbant: Gardd farchnad organig

Mae Henbant yn fferm fechan (30ha) sy'n cael ei rhedeg mewn modd ecolegol a chyfannol yng Ngogledd Orllewin Cymru, ddwy filltir o'r arfordir, a 100m uwchben lefel y môr. Mae oddeutu hanner y fferm yn goetir gyda'r borfa'n cael ei rhannu rhwng tir pori bras a thir wedi'i wella'n rhannol. Mae'r fferm yn berchen i newydd ddyfodiaid i'r diwydiant ffermio, a chafodd y dulliau ffermio adfywiol eu cyflwyno yn dilyn Cyfnewidfa Rheolaeth Cyswllt Ffermio. Mae'r fferm yn anelu at sicrhau elw ariannol, yn ogystal â buddion ecolegol a chymdeithasol, ac mae'r ffermwyr yn awyddus i barhau i fwynhau rhedeg y busnes. Mae'n rhaid i'r fferm ddarparu incwm a thalu'r morgais, ac mae'n dibynnu ar gefnogaeth sylweddol gan wirfoddolwyr ac interniaid. Mae'r tir pori presennol yn cael ei reoli'n gyfannol, ond mewn parseli tir mwy o faint na'r gofynion dyddiol ar gyfer y da byw. Mae'r fferm wedi bod yn tyfu llysiau ar raddfa fechan iawn am nifer o flynyddoedd ac mae gan y ffermwyr ystod o wahanol ddi-ddordebau arallgyfeirio busnes, gan gynnwys twristiaeth.

Cynllun presennol o'r ardd farchnad



Gosodwyd yr ardd farchnad yn wreiddiol i gynnwys gwelyau rheolaidd a pharhaol 70cm o led, 10m o hyd gyda llwybrau 40cm o sglodion pren. Mae pob un yn cyfeirio o'r gogledd i'r de, ac mae pob 1 leg gwely yn lletach ac yn cynnwys coed ffrwythau a phlanhigion lluosflwydd. Mae'r rhain wedi'u plannu er mwyn cynnig buddion ychwanegol, boed hynny i ddenu pryfed, cylchdroi mwynau neu fel cnydau bwydadwy/cynhyrchiol. Roedd yr ardaloedd hyn yn badogau moch yn y gorffennol, a chafodd y tir ei orchuddio gyda phlastig silwair. Cafodd swm sylweddol o gompost ei brynu i mewn a'i gymysgu gyda thail buarth y fferm ei hun. Rhoddwyd y gymysgedd ar y gwelyau plannu ar ddyfnder o 10cm.

Roedd cynllunio'r cnydau'n hanfodol er mwyn i'r ardd farchnad sicrhau elw. Casglwyd ystod o gynlluniau cnydau gan erddi marchnad eraill, a chrëwyd un ar gyfer graddfa, profiad a'r dull gweithredu ar fferm Henbant. Cynlluniwyd y byddent yn tyfu digon o lysiau ar gyfer 40 blwch rhwng mis Mehefin a Rhagfyr.

Ardal yr ardd farchnad yn dangos y gwelyau plannu wedi cael eu sefydlu a'u plannu.



### EIP Cymru

#### Tyfu asbaragws mewn system organig



Mae potensial mawr i asbaragws yng Nghymru gan ei fod yn gnwd uchel ei werth sy'n gwerthu'n dda o giât y fferm. Mae'r prosiect tair blynedd hwn yn edrych ar agweddau agronomeg ac economaidd tyfu asbaragws ar ddwy fferm yn Sir Fynwy. Cafodd y cnwd cyntaf ei gynaeafu ym mis Mai 2020, a lluniodd y grŵp ganllaw cynaeafu a gyhoeddwyd i helpu tyfwyr eraill yng Nghymru. Yn ogystal â thrafod rhai o'r problemau cyffredin a gafwyd yn ystod y cyfnod cynaeafu, roedd y canllaw hefyd yn amlinellu sut i gael y gorau allan o'r cnwd.

Mae sgiliau trefnu da yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y cnwd yn cael ei gynaeafu, ei becynnu a'i farchnata'n llwyddiannus.

- Sicrhewch fod gennych farchnad ar gyfer eich asbaragws
- Sicrhewch fod gennych ddigon o staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol er mwyn cynaeafu a phe cynnu
- Glanhewch a pharatowch yr ardal becynnu a'r storfa oer
- Cynlluniwch y broses gynaeafu a chodwch y cnwd yn gytbwys ar draws y cae
- Mae trelar ar gefn tractor yn lleihau faint o lwyth y mae'n rhaid i'r staff ei gario ac yn hwyluso'r prosesau



Pan fyddwch yn gwerthu drwy siopau fferm, maent yn fwy goddefgar o unrhyw namau neu amrywiaeth o ran maint, ond mae'n rhaid sicrhau bod ansawdd yn un o'r prif nodau.

Mae'r ffordd y mae'r cynnyrch yn cael ei ddangos yn y siop yn bwysig iawn, ac yn aml, mae'n well gan gwsmeriaid becynnau llai.

#### Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth

Cyhoeddwyd yr erthyglau technegol canlynol gan y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth:

- Y DEFNYDD O OLEWU NAWS PERLYSIEUOL FEL RHAN O FAETHIAD MOCH – A OES MANTEISION I HYNNY?
- TECHNOLEG DAL A STORIO CARBON – 12 FFORDDY GALLWCH CHI DDEFNYDDIO'R DECHNOLEG AR EICH FFERM
- SICRHAU'R DIET GORAU I FUCHOD LLAETH I WELLA EU HIECHYD
- NWYDDAU CYHOEDDUS A FFERMIO
- CNYDAU SY'N GWRTHSEFYLL SYCHDER AT Y DYFODOL
- FFERMIO TIR ÂR ORGANIG A'R EFFEITHIAU AR YR HINSAWDD

#### Cymorthfeydd

##### Cynhaliwyd 118 Cymhorthfa

Roedd y prif bynciau'n cynnwys:



Marchnata ac  
Arallgyfeirio



Cynllunio



Glaswelltir



Iechyd anifeiliaid





## Grwpiau Trafod



CYNHALIUYD

29

CYFARFOD GRŴP  
TRAFOD YN YMWNEUD  
Â'R SECTOR ORGANIG

gyda

225  
O FNYCHWYR

### Astudiaeth Achos

Yn dilyn gweminar Cyswllt Ffermio gyda Dave Davies, Silage Solutions yn trafod yr awgrymiadau gorau ar gyfer cynhyrchu silwair o'r ansawdd gorau, roedd gan aelod o'r Grŵp Llaeth Organig gwestiynau penodol ynglŷn â system dyfu organig. Ym mis Mehefin 2020, cynhaliwyd cyfarfod rhithwir pellach gyda Dr Dave Davies, a threfnwyd cyfarfod grŵp trafod gan y swyddog datblygu lleol.

Bu Dr Dave Davies yn canolbwyntio'n bennaf ar y ffordd orau o gynhyrchu silwair o laswellt a chodlysiau mewn system organig, yn enwedig yn ystod y cyfnod heriol o dywydd sych a welwyd ar ddechrau'r haf 2020.

Trafodwyd gwahanol rywogaethau o laswellt a chodlysiau a sut y gallai aelodau fesur ansawdd eu silwair eu hunain gartref. Bu Dr Dave Davies yn rhannu dulliau hawdd i'w defnyddio o fesur deunydd sych (DM) gartref, a rhoddodd fformwlâu y byddai'r aelodau'n gallu eu defnyddio er mwyn cyfrifo'r egni metaboladwy yn y silwair.

Trafodwyd y dangosyddion perfformiad a'r targedau y gallai ffermwyr anelu atynt. Gan ddefnyddio'r dulliau o gyfrifo ansawdd y silwair a drafodwyd, byddai modd i'r aelodau feincnodi eu silwair, gan gymharu eu ffigurau gyda thargedau delfrydol.

Cafwyd sesiwn holi ac ateb brwd ar ddiwedd y cyfarfod, gan roi cyfle i'r aelodau roi rhagor o fanylion am eu systemau ffermio eu hunain a derbyn cyngor penodol yn ymwneud â'u ffermydd.

### Mentora

MAE GENNYM NI 10 MENTOR ORGANIG AR Y FFRAMWAITH



Cliciwch yma i weld  
**proffil Alan**



Cliciwch yma i weld  
**proffil Dafydd**



Cliciwch yma i weld  
**proffil David**



Cliciwch yma i weld  
**proffil Haydn**



Cliciwch yma i weld  
**proffil Helen**



Cliciwch yma i weld  
**proffil Jim**



Cliciwch yma i weld  
**proffil Phillip**



Cliciwch yma i weld  
**proffil Richard**



Cliciwch yma i weld  
**proffil Romeo**

Pynciau a drafodwyd:

Cadw  
gwenyn  
organig



Trosi i  
gynhyrchu  
defaid organig



Cynhyrchu  
llaeth organig



## Gweminarau



Cynhaliwyd

34

GWEMINAR

gyda



4,344  
O WYLLWYR

Mae enghreifftiau o'r gweminarau a gynhaliwyd yn cynnwys:

Rheoli chwyn mewn  
glaswelltir



Rheoli cyflenwad  
glaswellt



Cynnal iechyd  
y pridd



Porfeydd aml-rywogaeth



Opsiynau tyfu er mwyn cynhyrchu  
incwm ychwanegol ar y fferm



### Agrisgôp

MAE 54 O'R CYFARFODYDD A GYNHALIUYD WEDI BOD  
YN TRAFOD Y SECTOR ORGANIG

Dyma rai o'r enghreifftiau o themâu'r grwpiau:

Cyfarfod  
garddwriaeth



Rheoli'r  
pridd



Organig a  
thu hwnt




### Hyfforddiant

Cafwyd 4 cyfnod ymgeisio rhwng mis Hydref 2019 a mis Medi 2020 gyda 878 achos o hyfforddiant wedi cael eu darparu yn ystod y cyfnod. O'r rhain, gallai 32 ohonynt gael eu hystyried o fewn y sector Organig.

Roedd y cyrsiau mwyaf poblogaidd ym mhob  
thema'n cynnwys:

Nifer yr unigolion a  
dderbyniodd hyfforddiant  
o'r Sector Organig



RHEOLI TIMOEDD  
ACHLYSUROL A THYMHOROL



DYFARNIAD LEFEL 2 MEWN  
DEFNYDDIO PLALADDWYR  
MEWN MODD DIOGEL (PA1)  
A DEFNYDDIO PLALADDWYR  
GAN DDEFNYDDIO OFFER  
LLAW (PA6)



MEISTROLI  
MEDDYGINIAETH

### E-ddysgu

Mae rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn yn  
ymwneud â'r sector Organig yn cynnwys:

Compostio  
ar fuarth  
y fferm



Amaeth-fferylliaeth  
– Cennin Pedr a  
chlefyd Alzheimer



Garddwriaeth  
organig



Am ragor o fanylion am y cyrsiau e-ddysgu, ewch i'r [wefan](#).

### Gwasanaeth Cynghori

Mae'r Gwasanaeth Cynghori'n cynnig cymorth wedi'i deilwra i helpu unigolion i adnabod eu nodau. Mae'r categori Cynhyrchu Organig yn cynnig cyngor ar yr holl safonau organig a'r cytundebau cynlluniau ffermio organig. Bydd cyngor o fewn y categori hwn hefyd yn sicrhau bod unigolion yn datblygu dealltwriaeth o'r tir, y cnydau a'r dulliau rheoli da byw gofynnol. Gall y rhai sy'n newydd i'r sector dderbyn cyngor ynglŷn â datblygu strategaeth i drosi i ffermio organig. Gall busnesau newydd a busnesau profiadol dderbyn cyngor ar oblygiadau ariannol yn ogystal â chynghor ymarferol ar ddatblygu strategaeth farchnata. Cliciwch [yma](#) i ddarganfod mwy.

